# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
# COFNODION Y CYFARFOD MISOL
# A GYNHALIWYD AR NOS IAU 17/06/2021 AM 7.00pm
# NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID.

**1. CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Neuadd Pantyfedwen; roedd rhaid glynnu wrth y rheoliadau Covid-19 Llywodraeth Cymru (paratowyd y Neuadd ymlaenllaw gan y Gyngh. Clare Hughes). Cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyngor Cymuned rithiol, ers mis Mai 2020, oherwydd y Pandemig.

Cafodd munud o dawelwch ei gadw er cof am Mr Gerwyn Jones, o Bontrhydfendigaid, a fu'n drist, farw'n ddiweddar, yn Llundain.

**2. YN BRESENNOL**
Y Gyngh Clare Hughes; Y Cyngh. Alun P. Jones; Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd); Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Gareth Owen, Eleri Thomas (Clerc) & Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ymddiheurodd Y Cyngh. John Jones a'r Gyngh. Mair Jones am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
**Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans y canlynol, mewn perthynas â'r mis blaenorol.**

**TORRI RHEOLIADAU LLYWODRAETH CYMRU COVID-19**
Yn ystod Gŵyl y Banc diwedd Mai, cynhaliwyd digwyddiad yng Nghoed y Bont. Adroddwyd bod nifer o geir wedi casglu'n y goedwig a llawer o unigolion wedi ymgynnull ar y Lôn Werdd, heb y dogfennau cyfreithiol.

Ymwelodd nifer o feicwyr oddi ar y ffordd o Lerpwl, â'r Goedwig. Roedd giât wedi'i chloi a gorfu i feicwyr adael drwy'r ffens bren.

Dygwyd beic cwad o fferm leol ar y 23.05.2021 am hanner nos. Darganfuwyd y beic pellter o filltir o'r lleoliad y dygwyd.

Gwelwyd cynnydd mewn galwadau sgâm.

**5. DATGAN DIDDORDEB**
Dim wedi'i ddatgan.

**6. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 27ain o Fai 2021**

**CYNIGIWYD (y Gyngh. Clare Hughes)**, **EILIWYD (y Gyngh. Angharad Jones)** a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod y 27ain o Fai 2021, yn gywir.

## 7. MATERION YN CODI

**7.1 Cyn-adeilad: Eglwys Dewi Sant, Pontrhydfendigaid:** Adroddwyd bod adeilad yr Eglwys wedi'i werthu yn unol â gofynion y cytundeb. Cwblhawyd 80 o holiaduron a'u dychwelyd. Gwnaeth y Cadeirydd y Cynghorydd Gareth Owen goladu'r ymatebion a llunio adroddiad ysgrifenedig a'i gylchredeg gerbron aelodau'r Cyngor Cymuned. Gellir casglu o'r ymatebion yr hyn sydd ei hangen o ran cyfleusterau'r pentref. Cytunwyd i anfon copi o'r ymatebion i Bwyllgor Neuadd Pantyfedwen a'r Pafiliwn.

**7.2 Archwiliad Blynyddol Rospa, Ardal Chwarae Pantyfedwen:** trefnwyd ar gyfer Mehefin 2021. Y Gyng. Clare Hughes a'r Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen i glustnodi sylw i faterion sy'n codi o'r Adroddiad Rospa 2020.

**7.3 Problem Tail Moch yng nghyffiniau Ffair Rhos:** adroddwyd at sylw Adran yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ceredigion dan law'r Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies. Adroddwyd bod Swyddog y Cyngor Sir wedi ymweld â'r safle.

**7.4 Gatiau i gymryd lle camfeydd yn ardal Ffair Rhos:** adroddwyd bod Mr Haydn Lewis, Ceidwad Tramwy a Chefn Gwlad, Cyngor Sir Ceredigion wedi cyflawni ychydig o'r gwaith i gynnwys y gamfa a osodwyd yn flaenorol ar y llwybr cerdded syn rhedeg o Glasfryn i Ros Helyg. Gosodwyd giat hefyd ger y grid gwartheg wrth ymyl y Bont Werdd. Cytunwyd gofyn i Gyngor Sir Ceredigion tybed a fyddai'n bosibl i baentio'r Bont Werdd. Hefyd i ofyn a ellid cyfnewid y gamfa am giat yn ardal Parc Carafannau Bryn y Gors.

**7.5 Materion i'w cyfeirio i dudalen Facebook y Cyngor Cymuned:** 7.7 & 7.8.

**7.6 Sul y Cofio a'r Pabi Gwyn:** gohebiaeth oddi wrth Côr Gobaith, Aberystwyth yn gofyn i'r Cyngor Cymuned i ystyried gosod pabi gwyn ger y Gofgolofn rhyfel yn ystod y seremoni cofio flynyddol er mwyn dwyn i gof holl ddioddefwyr rhyfel ar draws y byd a dangos ymrwymiad tuag at heddwch. ***Penderfynwyd parhau â'r trefniant presennol sef i osod plethdorch goch yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio.***

**7.7 Dweud eich Dweud ar Asesiad o Anghenion Fferyllol 2021 Drafft: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**: 7.05-6.07.2021. Crynodeb Ymgynghoriad: www.dweudeichdweud.biphdd.cymru.nhs.uk/asesiad-o-anghenion-fferyllol-2021
***Penderfynwyd anfon gwybodaeth parthed yr uchod i dudalen Facebook y Cyngor Cymuned a Siop y Pentref.***

**7.8 Adeiladu dyfodol iachach yn dilyn COVID-19: Dweud eich dweud**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gofyn i bobl Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro i helpu i lywio gwasanaethau'r dyfodol ymhellach, trwy gymryd rhan mewn ymarfer ymgysylltu dros gyfnod o chwe wythnos.

Ers cyhoeddi ei strategaeth, Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda yn 2018, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gofal a datblygu gwasanaethau.

Fodd bynnag, mae pandemig coronafeirws wedi cael effaith mawr ar wasanaethau iechyd a gofal. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd am ddysgu gan y cyhoedd sut mae'r pandemig wedi effeithio ar eu hiechyd a'u gofal, a'u mynediad at y gwasanaethau hyn.

Mae BIP Hywel Dda hefyd yn gofyn am adborth y cyhoedd mewn perthynas â'i strategaeth hirdymor i ddatblygu ac adeiladu ysbyty newydd yn ne ardal Hywel Dda, rhywle rhwng ac yn cynnwys Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin ac Arberth yn Sir Benfro.

Dyma'r lleoliad mwyaf canolog i fwyafrif y boblogaeth yn ne ardal Hywel Dda, a phenderfynwyd arno trwy ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2018.

Bydd yr ymarfer ymgysylltu yn para o ddydd Llun 10 Mai tan 21 Mehefin 2021.

Am wybodaeth bellach:

Ewch i: www.dweudeichdweud.biphdd.cymru.nhs.uk

Anfonwch ebost at: hyweldda.engagement@wales.nhs.uk;

Ffoniwch: 01554 899 056 (gadewch neges a bydd y GIG yn eich ffonio nôl fel nad oes yn rhaid i chi dalu am yr alwad)

***Penderfynwyd anfon gwybodaeth parthed yr uchod i dudalen Facebook y Cyngor Tref a Siop y Pentref.***

**7.9** **Atgyweirio'r Fainc: Ffair Rhos:** Bydd y Cyngh. Gareth Owen a John Jones yn clustnodi sylw i'r mater.
**7.10** **Tanc Olew, Ffair Rhos:** Bydd y Gyngh. Angharad Jones yn gwneud ymholiadau.
**7.11** **Cofrestr Diffibrilwyr yn yr ardal:** cais am wybodaeth oddi wrth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Adroddwyd bod diffibriliwr ar gael wrth ymyl y Siop a Neuadd Pantyfedwen.
**7.12** **Trosglwyddo perchnogaeth a rheolaeth safle ar y we'r Word Press** i ddwylo'r Cyngor Cymuned oddi wrth y gyn Gyngh. Laura Jones: dim datblygiadau.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **KellyKare Iechyd & Diogelwch, Aberystwyth** yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl arddangos Cerdyn Busnes A5 ar yr hysbysfwrdd cymunedol. Cytunwyd i ganiatau hyn. Gofynnwyd hefyd tybed a allai KellyKare gysylltu â'r person sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch Neuadd Pantyfedwen. Penderfynwyd i ofyn i'r ymgeisydd i gysylltu â'r Gyngh. Care Hughes parthed y ddau fater. Y Gyngh. Clare Hughes sy'n gyfrifol am faterion Iechyd a Diogelwch y Cyngor Cymuned.
**8.2** **Sesiynau Hyfforddi o Bell ar gyfer Mehefin**: Un Llais Cymru: er gwybodaeth.
**8**.3 **Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru**: Dydd Mawrth 29ain Mehefin 2021. Ni fydd cynrychiolydd Un Llais Cymru'n bresennol yn ystod y cyfarfod hwn.
**8.4** **Posteri**: manylion cyswllt Elin Jones MS a Ben Lake AS. Cynhelir cymhorthfeydd yn rheolaidd ledled Ceredigion. I drefnu apwyntiad, ffoniwch 01970 624 516 (EJ) a 01570 940 333 (BL). Fb: Elin Jones – Ceredigion; Trydar: @elinceredigion; Instagram: elinceredigion. Fb Ben Lake – Ceredigion; Trydar @benmlake; Instagram: benmlake. Cytunwyd i'w harddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned a Siop y Pentref.
**8.5** **Gohebiaeth Pellach**: er gwybodaeth.

## 9. CYLLIDEB

**9.1** **Archwilio Cyfrifon 2021:** Gwybodaeth ynghylch Archwiliad Allanol Statudol. Gwnaeth y Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r Ffurflen Flynyddol a'i chymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod hwn. Gellir dod o hyd i sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned @ 31.03.201 ar y safle ar y we: Blwyddyn Ariannol – Fiscal Year 2019-2020; 2020-21 | Cyngor Cymuned – Ystrad Fflur – Community Council (ccystradfflurcc.org.uk)

**9.2** **Cwblhawyd yr Archwiliad Mewnol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020-21** gan Mrs Enid Hughes a chanfuwyd ei fod yn foddhaol. (tâl o £100)

**9.3 Ysgoloriaeth 2021:** Gwobrwyir £20 i Guto Evans.

**10. CYNLLUNIO**
**Dim materion cynllunio i'w hystyried.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Mae angen gludo o gwmpas yr hysbysfwrdd.** Y Cyngh. Gareth Owen i glustnodi sylw i'r mater.

**11.2 Cytunwyd i atgoffa Cyngor Sir Ceredigion** o'r cais am bont droed wrth ymyl y brif bont y pentref.

**11.3 Mae angen ailgyflenwi'r gel llaw.** Cytunwyd i brynu gel @ £40 y galwyn.

**11.4 Wellington House, Pontrhydfendigaid:** gofynnwyd tybed a oedd angen caniatâd cynllunio i ymwneud â datblygiad yng nghyffiniau Wellington House.

**11.5 Adroddwyd nad oedd porfa'n cael ei dorri'n rheolaidd** yng nghyffiniau 1-6 Maesydderwen a rhai ymylon glaswellt yn y pentref. Cytunodd y Gyngh. Angharad Jones i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion (01545 572 572).

**11.6 Gwybodaeth i drosglwyddo gerbron Facebook y Cyngor Cymuned**: Cytunodd Laura Jones yn ystod y cyfarfod blaenorol i drosglwyddo gwybodaeth i dudalen Facebook y Cyngor Cymuned ar ran aelodau. Penderfynwyd cytuno'n ystod y cyfarfod misol pa wybodaeth y dylid ei drosglwyddo.

**Daeth y cyfarfod i ben am pm.8.30pm**

**11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
**Nos Iau 15fed o Orffennaf 2021 @ 7pm Lleoliad: Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen.**

=================================================== (Arwyddwyd / Dyddiad